**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**10 Ionawr 2024**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Swyddogion yn bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dawn Jones (ar gyfer eitem 4) a'r Cynghorydd Gwynfor Owen (ar gyfer eitem 5).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Dewi Owen a Mr Richard Parry Hughes.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR SAFONAU** | 10 Ionawr, 2024 |

**PWNC**

Eitem 4: CAIS AM ODDEFEB – Y CYNGHORYDD DAWN JONES

**PENDERFYNIAD**

**Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Dawn Jones gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd, a hynny ar yr amod nad yw'n cael ei phenodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Roedd gan y Cynghorydd Dawn Jones fuddiant personol yn ei chais ei hun ond bod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb gyffredinol sy'n caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau er diben ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'u cais yn unig. Gadawodd y cyfarfod wedi ymdrin â chwestiynau.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR SAFONAU** | 10 Ionawr, 2024 |

---

**PWNC**

Eitem 5: CAIS AM ODDEFEB – Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN

---

**PENDERFYNIAD**

**(1) Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Gwynfor Owen gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd, a hynny ar yr amod nad yw'n cael ei benodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.**
**(2) Gwrthod goddefeb i'r Cynghorydd Gwynfor Owen siarad a phleidleisio ar unrhyw achlysur y bydd y mater hwn yn codi gan nad oedd yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r cais i ddod i gasgliad priodol.**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Nododd Mr Aled Jones ei fod yn adnabod y Cynghorydd Gwynfor Owen yn bersonol ac yn broffesiynol trwy ei waith.

Roedd yr aelod o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Roedd gan y Cynghorydd Gwynfor Owen fuddiant personol yn ei gais ei hun ond bod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb gyffredinol sy'n caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau er diben ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'u cais yn unig. Gadawodd y cyfarfod wedi ymdrin â chwestiynau.

---